Yr Iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych

1. Mae canlyniad Cyfrifiad 2011 yn dangos fod 22,236 o bobl Sir Ddinbych yn gallu siarad Cymraeg, sef 24.6% o'r boblogaeth. Y cyfanswm o bobl oedd yn siarad Cymraeg yn 2001 oedd 23,760, sef 26.4% o'r boblogaeth. Dros gyfnod o ddeg mlynedd bu gostyngiad o 1,524 yn y nifer ac 1.8% yn y canran o bobl sy'n siarad Cymraeg yn y sir.

2. Mae dosbarthiad daearyddol siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych ychydig yn fwy gwastad nag yw yng Nghyngor Conwy. Mae canlyniadau'r Cyfrifiad 2011 yn dangos bod y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg i'w canfod yn ne orllewin y sir, yn wardiau Llandrillo (59.2%), Efenechtyd (53.7%), Llanrhaeadr yng Ngynmeirch (50%) a Llanfair Dyffryn Clwyd (48.3%).

3. Fel y gwelir o'r map isod, y wardiau etholaethol gyda'r canran isaf o siaradwyr Cymraeg yw Gogledd Prestatyn (12.6%), Gorllewin y Rhyl (12.7%) a Dwyrain y Rhyl (13.0%), sy'n ardaloedd arfordirol.



Ffynhonnell: Swyddfa Comisiynydd yr Iaith Gymraeg

4. Mae'r tabl isod yn dangos yr ardaloedd etholaethol gyda'r canrannau uchaf ac isaf o siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych:

Rhanbarth Etholiadol	**% Siaradwr Cymraeg 2011**
Llandrillo	59.2
Efenechtyd	53.7
Llanrhaeadr yng Nghynmeirch	50.0
Llanfair Dyffryn Clwyd / Gwyddelwern	48.3
Corwen	47.9
Rhuthun	41.7
Dinbych Isaf	40.2
De-orllewin y Rhyl	13.7
De-orllewin Prestatyn	13.7
Dwyrain y Rhyl	13.0
Gorllewin y Rhyl	12.7
Gogledd Prestatyn	12.6

5. Yn wahanol i'r ardaloedd etholiadol sydd â chanrannau uchel - ardaloedd gwledig gan mwyaf - mae'r tabl isod yn dangos fod y rhan fwyaf o wardiau etholaethol gyda'r niferoedd uchaf i'w canfod mewn trefi marchnad fel Corwen, Rhuthun a Dinbych. Ymddengys felly fod trefi yn arwyddocaol iawn o safbwynt cynllunio ar gyfer dyfodol yr iaith gan fod niferoedd a chanrannau gweddol uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw ynddynt; yn yr un modd mae canrannau a niferoedd gweddol uchel yn byw mewn wardiau fel Llanfair DC/Gwyddelwern ac Efnechtyd. Yn ddiddorol, mae 1,000 o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ward De-Ddwyrain y Rhyl er fod y ganran yn weddol isel (15.5%):-

Rhanbarth Etholiadol	**Nifer Siaradwyr Cymraeg**
Rhuthun	2,195
Dinbych Isaf	1,777
De-ddwyrain y Rhyl	1,132
Llanfair DC / Gwyddelwern	1,044
Corwen	1,084
Dinbych Uchaf	998

6. Rhwng 2001 a 2011, gwelodd 5 rhanbarth etholiadol yn y sir gynnydd o safbwynt eu nifer a'u canran o siaradwyr Cymraeg

Rhanbarth Etholiadol	**Cynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg**	**Newid yn y ganran o siaradwyr Cymraeg**
Efenechtyd	58	+2.10%
Llangollen	41	+0.15%
Gogledd Prestatyn	84	+0.28%
De-orllewin Prestatyn	67	+1.13%
Gorllewin y Rhyl	19	+0.32%

7. Bu cynnydd mewn nifer ers 2001 mewn 9 rhanbarth etholiadol. Yn ogystal â'r rheiny a enwir uchod gwelodd rhanbarthau etholiadol Bodelwyddan (+3), Llanarmon yn Iâl/Llandegla (+20), De-Ddwyrain y Rhyl (+5) a Rhuthun (+23) gynnydd mewn cyfnod o ddegawd. Gogledd Prestatyn a De-Orllewin welodd y cynnydd mwyaf, fel y nodir uchod.

Dosbarthiad Siaradwyr Cymraeg yn Ôl Oedran

8. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn amrywio'n sylweddol yn ôl oedran. Fel y nodir yn y tabl isod, yn ôl Cyfrifiad 2011 gall dros 40% o blant 3 – 15 oed yn Sir Ddinbych siarad Cymraeg. Yn anffodus mae'r ffigwr hwn yn gostwng i 26% o'r grŵp oedran 15 – 30 ac yn gostwng ymhellach yn y grŵp oedran 30-50. Y grŵp oedran 50 – 70 sydd â'r ganran isaf o siaradwyr Cymraeg o bob grŵp oedran, sef 18.3%. Mae'r grŵp oedran 70+ ychydig yn uwch, gyda 22.4% yn gallu siarad Cymraeg. Fel y gwelir, mae'r canrannau uchaf yn y grŵp oedran 4-15. Mae hyn mae'n debyg yn adlewyrchu dylanwad y system addysg ar sgiliau ieithyddol plant oedran ysgol.

9. Mae'r niferoedd yn y grwpiau 20 – 70 oed yn weddol gyson ac yn amrywio o 1,032 i 1,340. Y cyfartaledd ar gyfer pob grŵp oedran yw 1,174 o siaradwyr Cymraeg.

Grŵp oedran	% Siaradwyr Cymraeg 2001	% Siaradwyr Cymraeg 2011	Nifer Siaradwyr Cymraeg 2001	Nifer Siaradwyr Cymraeg 2011
Pawb dros 3 oed	26.4	24.6	23,760	22,236
3-4 oed	19.6	27.6	417	584
5-9 oed	39.4	45.3	2,273	2,248
10-14 oed	46.3	47.2	2,865	2,581
15-19 oed	36.6	32.5	1,990	1,950
20-24 oed	24.8	23.0	1,115	1,198
25-29 oed	24.2	22.8	1,174	1,032
30-34 oed	22.0	23.1	1,295	1,039
35-39 oed	21.5	22.7	1,425	1,215
40-44 oed	21.6	20.6	1,271	1,320
45-49 oed	20.5	19.1	1,202	1,326
50-54 oed	21.0	18.6	1,471	1,158
55-59 oed	22.1	17.3	1,283	1,034
60-64 oed	22.8	18.7	1,212	1,340
65-69 oed	25.0	18.6	1,175	1,079
70-74 oed	24.4	20.3	1,109	972
75-79 oed	24.6	22.4	1,011	832
80+ oed	26.9	24.6	1,472	1,328

10. Beth sy'n galonogol am y data yw'r cynnydd sylweddol yn y ganran a'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oed 3 – 4, o 19.6% (417 mewn nifer) yn 2001 i 27.6% (584) yn 2011, cynnydd o +8% a 167 mewn nifer. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod mwy o rieni neu aelodau o'r teulu estynedig sy'n siarad Cymraeg yn y cartref gyda'u plant; neu fod mwy o blant yn mynychu grwpiau Ti a Fi neu grwpiau meithrin cyfrwng Cymraeg.

11. Mae hefyd yn werth nodi fod cynnydd yn y gyfran o blant 5 – 15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg ers 2001, o 42.8% i 46.25%. O safbwynt niferoedd mae gostyngiad yn y grŵp hwn o 309, sy'n adlewyrchu'r ffaith fod llai o blant yn y grwpiau blwyddyn hynny o'i gymharu â degawd yn ôl.

12. Yn anffodus, fel sy'n digwydd mewn nifer o ardaloedd eraill lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn weddol uchel, nid yw'r cynnydd ieithyddol hwn yn cael ei gynnal o un degawd i'r nesaf. Gwelwn yn y graff isod er enghraifft, fod 46.3% o blant 10 - 14 oed yn siarad Cymraeg yn 2001, ond ddegawd y ddiweddarach dim ond 23% o'r un cohort, sydd bellach yn 20 - 24 oed, sy'n parhau i siarad Cymraeg. Mae hyn yn llai na hanner.

13. Os edrychwn ni ar y niferoedd yn yr un grwpiau oedran fe welwn fod gostyngiad o 1,667 o siaradwyr Cymraeg mewn degawd, rhwng y rheiny oedd yn rhugl yn 14 oed (2,865) a'r rheiny a nododd eu bod yn rhugl yn 24 oed (1,198). Fel y nodir ym mhwynt 16 isod, mae pobl ifanc yn ymfudo allan yn un rheswm dros y gostyngiad yn y niferoedd a'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran hwn bob degawd.